# Arolygiad o dan Adran 28
# Deddf Addysg 2005

## Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

## Ysgol Gynradd Llanrug
## Llanrug
## Caernarfon
## Gwynedd
## LL55 4AL

**Rhif yr Ysgol: 6612006**

**Dyddiad yr Arolygiad: 19 Hydref 2009**

**gan**

**Edward Goronwy Morris**

**78283**

**Dyddiad Cyhoeddi: 21 Rhagfyr 2009**

**O dan rif contract Estyn: 1100309**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

**Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol**

72. Mae'r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn rhagorol. Caiff adnabyddiaeth y disgyblion o werthoedd Cristnogol ei datblygu'n effeithiol. Yn y sesiynau cydaddoli mae naws addolgar arbennig. Fe gydymffurfia'r ysgol yn llawn â'r gofynion statudol. Mae sesiynau 'amser cylch' yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a dealltwriaeth y disgyblion o faterion moesol a chymdeithasol ac yn eu cynorthwyo i barchu gwirionedd a chyfiawnder. Rhoddir pwysigrwydd priodol i ofynion y rhaglen ABCh ym mywyd bob dydd yr ysgol.